

Mark Drakeford AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Simon Thomas AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Arwaig Simon

15 Chwefror 2017

BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU)

Gobeithio i chi weld y briff technegol ar 2 Chwefror yn ddefnyddiol, ynghylch y gwelliant Cyfnod 2 ar gyfraddau uwch i drafodiadau eiddo preswyl (*y gordal Treth Trafodiadau Tir*). Rwy'n croesawu'ch diddordeb yn y ffordd y byddai'r Bil yn cael ei roi ar waith yn ymarferol ac yn cydnabod bod hwn yn fater cymhleth mewn manau. Rwy'n awyddus iawn i helpu a chefnogi'r Pwyllgor a'r rhanddeiliad ym mha bynnag ffordd sy'n bosibl.

Ysgrifennaf atoch i'ch hysbysu fy mod yn bwriadu cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 3 sy'n ceisio addasu effaith y gordal ar gaffael a pherchnogaeth anheddau sydd wedi'u caffael a'u dal gan ddirprwy ar ran plentyn dan oed heb alluedd meddyliol yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005.

Mae'r sefyllfa ddiodyn bresennol dan Dreth Dir y Dreth Stamp (a hefyd dan y gwelliant gordal Treth Trafodiadau Tir) fel a ganlyn – pan fo plentyn yn dal, caffael neu waredu buddiant mewn eiddo, ystyrir mai rhieni'r plentyn (yn hytrach na'r plentyn ei hun) sy'n dal, caffael neu waredu'r buddiant hwnnw. Dyma drefn bwysig i sicrhau nad yw'r gordal Treth Trafodiadau Tir cael ei osgoi ddim ond drwy brynu eiddo er budd plant.

Fodd bynnag, wedi trafod gydag arbenigwyr technegol, rydym wedi nodi anghysondeb mewn perthynas â phlant heb alluedd sy'n dal eiddo drwy ddirprwy wedi'i benodi gan y llysoedd sy'n gweithredu yn unol â Deddf Galluedd Meddyliol 2005. Er mwyn mynd i'r afael â'r anghysondeb hwn, bydd y gwelliant rwy'n bwriadu ei gyflwyno'n datgymhwyso'r ddarpariaeth ddiodyn mewn perthynas â buddiannau plant. Nod y gwelliant yw sicrhau nad yw plant heb alluedd a'u rhieni dan anfantais o ganlyniad i'r gordal Treth Trafodiadau Tir.

Rwyf wedi dweud yn gyson na fyddwn yn newid er mwyn newid, ond y byddwn yn ceisio egluro a gwella'r ddeddfwriaeth pan fo cyfle i wneud hynny. Rwyf eisoes wedi gwneud rhai

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwelliannau, yn fy marn i, i reolau cyfraddau uwch y Dreth Trafodiadau Tir. Os bydd cyfle'n codi i egluro ymhellach neu wneud gwelliannau ychwanegol i'r Bil ar gyfer Cyfnod 3, byddaf yn ceisio'u cyflwyno.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi. Rwy'n awyddus i gynorthwyo'r Pwyllgor os oes unrhyw beth pellach a fyddai o gymorth iddo i gefnogi'r gwaith hwn.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mark Drakeford'.

Mark Drakeford AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government